



Clerc/Clerk: Anwen Jones
Cyfeiriad/Address: 10 Gorffwysfa, Dwyran, Ynys Mon, LL61 6YJ
Ffon/Tel: 07375781090
E-bost/E-mail: valleycommunitycouncil@gmail.com
Gwefan: www.cyngor-cymuned-fali.cymru
Website: www.valley-community-council.wales

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Y Fali

Cynhaliwyd am 6.30yh ar nos Fercher 18/03/2026

Cafodd y cyfarfod ei gynnal mewn fformat hybrid yn Ysgol Gymuned y Fali, gan alluogi'r mynychwyr i gymryd rhan naill ai wyneb yn wyneb neu o bell trwy Microsoft Teams.

Presennol

Cynghorwyr:

N Tuck (Cadeirydd)	G Browne MBE (Is-Gadeirydd)
C Carter	E Jones
W Rogerson MBE	M Swaine Williams
C Z Tattersall	K Taylor (hefyd yn Gynghorydd Sir)
C Thornhill	A Walker
H Williams	S Williams

Hefyd yn bresennol

Cynghorydd Sir G Jones
Anwen Williams - aelod cyf-ethol (heb lofnodi Datganiad o Dderbyn Swydd eto/heb hawl i bleidleisio)
H Hughes, Cyfieithydd
A Jones Clerc

Wedi ymuno am 7:25 ar gyfer cynnal gweithdy eitem 308/2526:

Manon James, National Grid
Angharad Crump, National Grid
Poppy Lown, Cavendish Consulting
Adam Farrell, Cavendish Consulting

Minutes of Valley Community Council

Held at 6.30pm, Wednesday 18/03/2026

The meeting was held in a hybrid format at Ysgol Gymuned y Fali, allowing attendees to participate either in person or remotely via Microsoft Teams.

Present

Councillors:

N Tuck (Chair)	G Browne MBE (Vice-Chair)
C Carter	E Jones
W Rogerson MBE	M Swaine Williams
C Z Tattersall	K Taylor (also a County Councillor)
C Thornhill	A Walker
H Williams	S Williams

Also present

County Councillor G Jones
Anwen Williams - co-opted member (not yet signed Declaration of Acceptance of Office/non-voting)
H Hughes, Translator
A Jones, Clerk

Joined at 7:25 to conduct the workshop for item 308/2526:

Manon James, National Grid
Angharad Crump, National Grid
Poppy Lown, Cavendish Consulting
Adam Farrell, Cavendish Consulting

287/2525

Croeso a Sylwadau Agoriadol

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Nododd y Cadeirydd fod y Clerc bellach wedi bod yn ei swydd am chwe mis ac, ar ran y Cyngor, bod nhw'n diolch iddi am ei gwaith yn ystod y cyfnod hwn.

Welcome and Opening Remarks

Everyone was welcomed to the meeting by the Chair.

The Chair noted that the Clerk has now been in post for six months and on behalf of the Council thanked her for her work during this period.

Cafwyd caniatâd gan yr holl aelodau i recordio'r cyfarfod er mwyn cynorthwyo gyda pharatoi'r cofnodion.

Permission was granted by all members to record the meeting in order to assist with the preparation of the minutes.

288/2526

Derbyn Ymddiheuriadau

Dim ymddiheuriadau

To accept apologies

No apologies

289/2526

Derbyn Datgan Buddiant Personol a/neu Rhag farnol

Datganodd y Cyng. K Taylor fuddiant personol ond diragfarn ar yr holl faterion cynllunio fel Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir.

To receive Declaration of Personal and/or Prejudicial Interest

Cllr. K Taylor declared a personal but non prejudicial interest on all planning matters as Chair of the County Council's Planning Committee.

290/2526

Caniatáu i'r cyhoedd siarad ar unrhyw eitem ar yr agenda neu ofyn cwestiynau (3 munud)

Dim aelodau o'r cyhoedd yn bresennol

To allow the public to speak on any items on the agenda or ask questions (3 minutes)

No members of the public present

291/2526

Diweddariad SCCH

Bydd Cyfarfod Heddlu yn cael ei gynnal yn y Pafiliwn, Parc Mwd, ar Ddydd Sadwrn, 21 Mawrth, rhwng 10:30am a 12:30pm. Bydd y sesiwn yn cael ei arwain gan PCSO Ashley o Dîm Heddlu Cymdogaeth Caergybi, gan gynnig cyfle i unrhyw un yn yr ardal godi pryderon neu drafod materion lleol.

PCSO Update

A Police Surgery will take place at the Pavilion, Parc Mwd, on Saturday, 21 March, from 10:30am to 12:30pm. The session will be led by PCSO Ashley from the Holyhead Neighbourhood Policing Team, providing an opportunity for anyone in the area to raise concerns or discuss local issues.

292/2525

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod 18/02/2026

Penderfynwyd: i dderbyn y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

Cyn/Eil: NT/MSW

Cytunwyd yn unfrydol

To confirm minutes of meeting 18/02/2026

Resolved: to accept the minutes as a true and accurate record.

Prop/Sec: NT/MSW

Agreed unanimously

293/2526

Materion yn codi o'r cofnodion

Dim

Matters arising from minutes

None

294/2526

Bioamrywiaeth

Adroddodd y Clerc y bydd Sam, Swyddog Bioamrywiaeth Un Llais Cymru, yn ymweld âg Y Fali dydd Mercher, 25 o Fawrth, i roi arweiniad ac awgrymiadau ar wella bioamrywiaeth leol ar safleoedd y Cyngor Cymuned. Gwahoddwyd aelodau i ymuno â'r ymweliad, a fydd yn dechrau yn Ynys Wen am 10:00yb.

Biodiversity

The Clerk reported that Sam, the Biodiversity Officer with One Voice Wales, will be visiting Valley on Wednesday, 25th March, to provide guidance and ideas for enhancing local biodiversity to Community Council sites. Members were invited to attend the visit, which will commence at Ynys Wen at 10:00am.

Cadarnhau Amserlen Cyfarfodydd 2026/2027

Cyflwynodd y Clerc yr Amserlen Cyfarfodydd 2026/2027 drafft, a oedd wedi'i rannu gyda'r aelodau cyn y cyfarfod, er cymeradwyaeth gan yr aelodau, gan nodi bod y dyddiadau a gynigir ar gyfer y Cyngor Llawn a'r tri phwyllgor wedi'u cynnwys. Lluniwyd yr amserlen ddiwygiedig fel bod dim ond un cyfarfod pwyllgor yn cael ei gynnal ym mhob mis. Nodwyd hefyd y bydd cylch cyfarfodydd pwyllgorau yn ystod tymor yr hydref bellach yn cael eu lledaenu dros fis Medi, Hydref a Thachwedd, yn hytrach nag i gyd ddigwydd o fewn cyfnod byr o gwmpas mis Hydref, er mwyn osgoi cynnal mwy nag un cyfarfod pwyllgor yn yr un mis. Cynghorodd y Clerc y bydd angen diwygio Cylch Gorchwyl y Pwyllgorau i adlewyrchu'r trefniant yma.

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau, os yw unrhyw fater brys yn codi, y gellir galw cyfarfod ychwanegol yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.

Gofynnodd y Cadeirydd i Gadeiryddion y Pwyllgorau adolygu eu Telerau Cylch Gorchwyl, sydd ar ein gwefan, cyn y Cyfarfod Blyneddol. Bydd y Clerc hefyd yn dosbarthu'r dogfennau Cylch Gorchwyl i'r Cadeiryddion.

Penderfynwyd: cymeradwyo'r amserlen cyfarfodydd ddiwygiedig ar gyfer 2026/2027.
Cyn/Eil: WR/EJ
Cytunwyd yn unffrydol

Confirm Meeting Schedule for 2026/2027

The Clerk presented the draft Meeting Schedule for 2026/2027, which had been circulated to members in advance of the meeting, for members' approval, noting that the proposed dates for Full Council and the three committees had been included. The revised timetable has been designed to ensure that only one committee meeting is held per month. It was further noted that the autumn cycle of committee meetings will now be distributed across September, October and November, instead of being held in close proximity during October, in order to avoid multiple committee meetings taking place within the same month. The Clerk advised that the Committee Terms of Reference will require amendment to reflect this revised scheduling.

The Chair reminded members that, should any urgent business arise, an additional meeting may be convened in accordance with Standing Order No. 6.

The Chair requested that Committee Chairs review their Terms of Reference, which can be found on our website, ahead of the Annual Meeting. The Clerk will also circulate the ToR to the Chairs.

Resolved: to approve the revised meeting schedule for 2026/2027
Prop/Sec: WR/EJ
Agreed unanimously

Adolygu a Cymeradwyo'r Cynllun Hyfforddi

Cyflwynodd y Clerc y Cynllun Hyfforddi diwygiedig, a oedd wedi'i rannu gyda'r aelodau cyn y cyfarfod. Tynnodd y Clerc sylw at y ffaith bod y cynllun bellach yn cynnwys y darpariaeth gyllidebol ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27. Hysbyswyd yr aelodau nad yw'r dyraniad presennol yn ddigonol i allu cynnig un cwrs hyfforddi gan Un Llais Cymru i bob aelod yn ystod 2026/27, ac y bydd angen ystyried cynyddu'r gyllideb hyfforddi ar gyfer 2027/28 er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol.

Dywedodd y Clerc hefyd, os yw unrhyw aelod yn rhagweld yr angen am nifer o sesiynau hyfforddi

Review and Approve Training Plan

The Clerk presented the revised Training Plan, which had been circulated to members in advance of the meeting. The Clerk highlighted that the plan now includes the budget provision for the 2026/27 financial year. Members were advised that the current budget allocation is insufficient to provide one One Voice Wales training course per member during 2026/27, and that an increased training budget will need to be considered for 2027/28 to ensure adequate provision.

The Clerk further advised that any members anticipating the need for multiple training sessions as part of their development should notify the Clerk

fel rhan o'u datblygiad, y dylent hysbysu'r Clerc erbyn mis Mehefin, cyn y broses gosod cyllideb ar gyfer 2027/28, fel y gellir adlewyrchu hyn yn y gyllideb ddrafft. Bydd y Clerc yn parhau i rannu cyfleoedd hyfforddi gyda'r aelodau fel y byddant yn codi. Atgoffwyd yr aelodau hefyd bod cynlluniau bwrsariaeth a chyfleoedd hyfforddi am ddim fel arfer ar gael drwy gydol y flwyddyn, ac y dylai'r Cyngor wneud defnydd ohonynt pan fo'r cyfle neu'r angen yn codi.

Penderfynwyd: cymeradwyo'r cynllun hyfforddi ddiwygiedig.
Cyn/Eil: KT/EJ
Cytunwyd yn unfrydol

by June, ahead of the 2027/28 budget-setting process, so that these requirements can be reflected in the draft budget. The Clerk will continue to circulate training opportunities to members as they arise. Members were also reminded that bursary schemes and free training opportunities are made available throughout the year, and that the Council should make use of such opportunities whenever possible to support ongoing development.

Resolved: to approve the revised training plan.
Prop/Sec: KT/EJ
Agreed unanimously

297/2525

Materion Lleol

Local Matters

1.

Cyflwr yr Ardal Lleol

Adroddodd y Clerc fod ymateb wedi dod i law gan Wasanaeth Rheoli Adeiladu'r Cyngor Sir yn dilyn y pryderon a godwyd yn y cyfarfod diwethaf (274/2526.2 – Penderfyniad 1) ynghylch yr hen eiddo masnachol ar Ffordd yr Orsaf, copi o'r ymateb wedi ei rannu gyda'r aelodau eisoes. Cadarnhaodd y Swyddog Rheoli Adeiladu fod y safle wedi ei fonitro yn rheolaidd, yn ystod mis Mawrth 2025, Tachwedd 2025, Chwefror 2026 ac eto mis yma. Er bod yr adeilad yn annifyr ei olwg, nid yw'n cael ei ystyried yn strwythur peryglus o dan Adran 77 o Ddeddf Adeiladu 1984. Mae'r perchnogion wedi gosod ffens Heras a byrddio diogelu, ac gan fod yr adeilad wedi'i osod yn ôl oddi wrth y troedffordd, nid yw'n peri risg uniongyrchol i'r cyhoedd.

Nid yw unrhyw gamau gorfodi ffurfiol wedi'u cymryd gan nad yw'r eiddo yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gweithredu o dan Adran 77, ond bydd monitro rheolaidd yn parhau.

Mae pryderon ynghylch sbwriel ar y safle wedi'u cyfeirio at y tîm lechyd yr Amgylchedd ac mae ymateb yn disgwylidig.

Nododd yr aelodau'r wybodaeth.

Condition of the Local Area

The Clerk reported that, following the concerns raised at the last meeting (274/2526.2 – decision 1), a response had been received from the County Council's Building Control Service regarding the former commercial property on Station Road, a copy of response has already been shared with the members. The Building Control Officer confirmed that the site has been subject to periodic monitoring, with inspections undertaken in March 2025, November 2025, February 2026 and again this month. Although the building is unsightly, it is not considered a dangerous structure under Section 77 of the Building Act 1984. Heras fencing and protective boarding have been installed by the owners, and as the building is set back within its own grounds, it does not pose an immediate risk to the public.

No formal enforcement action has been taken as the property does not meet the threshold for intervention under Section 77, but periodic monitoring will continue.

Concerns about rubbish on the site have been referred to the Environmental Health team and a response is awaited.

Hysbysodd y Clerc yr aelodau fod trigolyn lleol wedi cysylltu â'r Cyngor yn ddiweddar i godi pryderon ynghylch cyflwr yr hen eiddo masnachol ar Ffordd yr Orsaf (fel y trafodwyd uchod) a'r adeilad dros y ffordd. Mae'r trigolyn hefyd wedi bod yn gohebu gyda'r Aelod Lleol, y Cyngorydd G. Jones, sydd eisoes wedi rhannu'r wybodaeth a gafodd gan y Cyngor Sir gyda'r trigolyn.

Cydnabu'r aelodau nad oes gan y Cyngor Cymuned unrhyw awdurdod statudol dros gyflwr adeiladau sy'n eiddo preifat. Mae'r pryderon iechyd a diogelwch a godwyd gan y trigolyn eisoes wedi'u trosglwyddo i'r Cyngor Sir fel yr awdurdod perthnasol, gan y Cyngorydd G Jones. Bydd copi o ymateb y Cyngor Sir i'r Cyngor Cymuned yn cael ei rannu gyda'r trigolyn er gwybodaeth.

Nid yw'r Cyngor Cymuned yn gallu cymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd, fodd bynnag, gall unrhyw bryderon pellach sy'n ymwneud â diogelwch gael eu trosglwyddo i'r Cyngor Sir i'w hystyried.

Hysbysodd y Clerc yr aelodau hefyd, yn dilyn y pryderon a godwyd yn y cyfarfod diwethaf (274/2526.2 – Penderfyniad 2), ac yn unol a cyfarwyddyd y Cyngor, bod llythyr wedi'i anfon at berchennog yr eiddo gwag arall ar Stryd yr Orsaf i ofyn am eglurhad o'u bwriadau ar gyfer yr adeilad. Nid oes unrhyw ymateb wedi dod i law hyd yn hyn.

2.

Cyflwr Lôn Bryn Afon

Nodwyd ers y cyfarfod diwethaf fod y Cyng Taylor wedi rhannu manylion ac lluniau o gyflwr y ffordd gyda'r Adran Priffyrdd yn y Cyngor Sir, ac wedi hynny fod un twll yn y ffordd wedi'i lenwi.

Gofynnodd y Cyng Swaine-Williams i Alun Roberts o Adran Priffyrdd y Cyngor Sir gael ei wahodd i ymweld â'r safle i asesu cyflwr y ffordd ymhellach.

Penderfynwyd: Y Clerc i gysylltu ag Alun Roberts (Priffyrdd, Cyngor Sir) i ofyn am ymweliad â Ffordd

Members noted the update.

The Clerk informed members that a local resident had recently contacted the Council to raise concerns about the condition of the former commercial property on Station Road (as discussed above) and the adjacent building. The resident has also been in correspondence with the Local Member, Cllr G. Jones, who has already provided them with updates received from the County Council.

Members acknowledged that the Community Council has no statutory authority over the condition of privately owned buildings. The health and safety concerns raised by the resident have already been passed to the County Council by Cllr Jones, as the relevant authority. A copy of the County Council's response to the Community Council will be shared with the resident for their information.

The Community Council is unable to take any further action at this time, however, any additional concerns relating to safety can be forwarded to the County Council for their attention.

The Clerk also informed members that, further to the concerns raised at the last meeting (274/2526.2 – Decision 2), and in accordance with the Council's instruction, a letter had been sent to the owner of the other vacant property on Station Road requesting clarification of their intentions for the building. No response has been received to date.

Condition of Bryn Afon Road

It was noted that since the last meeting, Cllr Taylor had shared details and images of the road condition with the County Council's Highways Department, and that one pothole has since been filled.

Cllr Swaine-Williams requested that Alun Roberts of the County Council's Highways Department be invited to attend a site visit to assess the condition of the road further.

Resolved: That the Clerk contact Alun Roberts (Highways, County Council) to request a site visit

Bryn Afon ac i rannu'r manylion perthnasol a'r lluniau gydag ef.
Cyn/Eil: MSW / WR
Cytunwyd: Yn unfrydol

to inspect Bryn Afon Road and to provide him with the relevant details and images of the road.
Prop/Sec: MSW / WR
Agreed: Unanimously

3.

Parc Mwd

- Siglen

Rhannodd y Clerc ei phryderon difrifol, ynghyd â phryderon Cadeirydd y Pwyllgor Parciau, ynghylch cyflwr gwael ac anniogel yr arwyneb o dan y siglen yn Parc Mwd. Dangosir luniau o'r ardal sydd wedi'i ddifrodi i'r aelodau.

Roedd y Clerc a Chadeirydd y Pwyllgor Parciau wedi cael pedwar dyfynbris ar gyfer arwyneb matiau gwair a dau ddyfynbris ar gyfer arwyneb "wet-pour" fel opsiynau ar gyfer ei ddisodli.

Holodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch cynllunio ariannol ar gyfer y gwaith. Eglurodd y Clerc fod monitro cyllideb hyd at Mis 11, ynghyd â rhagamcaniad o wariant diwedd blwyddyn, yn dangos bod digon o danwariant ar gael i dalu cost y gwaith, gyda dros ben yn weddill i'w drosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn.

Trafododd yr aelodau gyflwr y safle ynghyd â'r opsiynau a'r costau a gyflwynwyd.

Diolchodd y Cadeirydd i Gadeirydd y Pwyllgor Parciau ac i'r Clerc am gasglu'r dyfynbrisiau.

Penderfynwyd: i fynd ymlaen â gwaith disodli'r arwyneb o dan y siglen yn Parc Mwd, gyda'r gwaith yn cael ei roi i Gyngor Tref Caerdybi am gost o £1,872.40, a gofyn iddynt sicrhau'r siglen gyda ffens Heras cyn gynted â phosibl.

Cyn/Eil: KT / CZT

Cytunwyd yn unfrydol

- Diweddariad Cyffredinol – Parc Mwd

Derbyniwyd diweddariad gan Cadeirydd y Pwyllgor Parciau, y Cyng. E Jones ar faterion amrywiol yn ymwneud â Parc Mwd, gan gynnwys:

Parc Mwd

- Cradle Swing

The Clerk shared her serious concerns, together with those of the Chair of the Parks Committee, regarding the deteriorating and unsafe condition of the surface beneath the cradle swing at Parc Mwd. Photographs of the damaged area were viewed by the members.

The Clerk and the Chair of the Parks Committee had obtained four quotations for grass-mat surfacing and two quotations for wet-pour surfacing to inform options for replacement.

The Chair of the Finance Committee enquired about financial planning for the works. The Clerk explained that budget monitoring to Month 11, alongside projected end-of-year expenditure, indicated sufficient underspend to cover the proposed works, with a surplus still available for transfer to reserves.

Members discussed the condition of the site and the options and costs presented.

The Chair thanked the Chair of the Parks Committee and the Clerk for obtaining the quotations.

Resolved: to proceed with replacing the surface beneath the cradle swing at Parc Mwd, awarding the work to Holyhead Town Council at a cost of £1,872.40, and requesting that the swing be secured with Heras fencing as soon as possible.
Prop/Sec: KT / CZT
Agreed unanimously

- General Update – Parc Mwd

The Chair of the Parks Committee, Cllr E. Jones provided an update on various matters relating to Parc Mwd, including:

Gosod arwyddion newydd (CCTV a Man Ymgynnull / Glwb Pêl-droed Y Fali (VFC)) / Gosod clo newydd ar cawell storio'r Cyngor / Dim gwirfoddolwyr wedi dod ymlaen eto mewn ymateb i'r fenter Ffrindiau Parc Mwd.

Holodd y Cyng. E. Jones hefyd am ddiweddariad gan yr Heddlu (PCSO) mewn perthynas â sylwedd amheus (amheuir ei fod yn gyffuriau) a gafwyd yn y parc yn ddiweddar. Nid oes diweddariad wedi dod i law hyd yma, bydd Cadeirydd y Cyngor yn cysylltu â'r PCSO i geisio gwybodaeth bellach.

Tynnodd y Clerc sylw'r aelodau hefyd at yr asesiad risg drafft gan y clwb pêl-droed ar gyfer eu twrnament peldroed ym mis Mehefin (copi eisoes wedi'i rannu â'r aelodau). Gwahoddwyd yr aelodau i gyflwyno sylwadau. Nodwyd bydd cyfarfod pellach yn cael ei drefnu gyda VFC i adolygu'r fersiwn derfynol o flaen y digwyddiad.

Diolchodd y Cadeirydd unwaith eto i Gadeirydd y Pwyllgor Parciau am ei waith a'i gefnogaeth barhaus.

4.

Ynys Wen

Derbyniwyd ddiweddariad gan Cadeirydd Pwyllgor Ynys Wen, y Cyng. W. Rogerson MBE, ar fynwent Ynys Wen. Hysbyswyd yr aelodau fod yr arwydd mynediad newydd wedi'i osod, ac fod yr holl waith adfer ar y cerrig beddi rhydd wedi'i gwblhau gan yr ymgwymerwyr yn dilyn yr asesiad risg a gynhaliwyd ym mis Hydref 2025. Mae un carreg bedd wedi syrthio ar ôl, sydd ar hyn o bryd wedi'i osod wrth ymyl y fynwent.

Bydd y Cadeirydd yn gwirio'r gwaith adfer i'r gwaith draenio diweddar unwaith y bydd y tywydd yn gwella.

Nodwyd y bydd cyfarfod nesaf o Bwyllgor Ynys Wen yn cael ei gynnal ar 31 Mawrth.

Installation of new signs (CCTV and Muster Point) / Cleaning of the outside toilets (following a request to the Valley Football Club (VFC)) / A new lock fitted to the Council's storage cage / No volunteers have yet come forward in response to the Friends of Parc Mwd initiative.

Cllr E. Jones also requested an update from the PCSO regarding a suspicious substance (suspected drugs) recently found at the park. No update has been received to date, the Chair of the Council will contact the PCSO to seek further information.

The Clerk also drew members' attention to the draft risk assessment submitted by the junior football club ahead of their summer tournament in June (a copy already shared with members). Members were invited to provide observations. It was noted that a further meeting will be arranged with VFC to review the final version prior to the event.

The Chair once again thanked the Chair of the Parks Committee for his work and continued support.

Ynys Wen

An update on Ynys Wen Cemetery was provided by the Chair of the Ynys Wen Committee, Cllr W Rogerson MBE. Members were informed that the new entrance sign has been installed, and that all remedial works to the loose headstones have been completed by the undertakers following the risk assessment carried out in October 2025. One fallen headstone remains, which is located at the edge of the cemetery.

The Chair will check the recent drainage remedial works once the weather improves.

It was noted that the next meeting of the Ynys Wen Committee will be held on 31 March.

5.

Grwp Cymunedol Y Fali

Hysbysodd y Clerc yr aelodau fod Grwp Cymunedol Y Fali wedi darparu copi o'u hasesiad risg (wedi'i rannu eisoes â'r aelodau) ar gyfer y digwyddiad Pasg yn Parc Mwd ac wedi cadarnhau eu bod yn derbyn telerau ac amodau polisi gosod y Cyngor, fel y gofynnwyd. Mae copi o'u tystysgrif yswiriant eto i'w dderbyn. Cadarnhawyd hefyd na fydd defnydd o offer ffrio ar gyfer y digwyddiad. Trafododd yr aelodau'r digwyddiad a'r dogfennau a dderbyniwyd.

Penderfynwyd: Caniatáu i Grwp Cymunedol Y Fali ddefnyddio'r Pafiliwn a Parc Mwd ar gyfer eu digwyddiad Pasg ym mis Ebrill, yn amodol ar dderbyn copi o'u tystysgrif yswiriant ddilys. Cyn/Eil: MSW/EJ
Cytunwyd yn unfrydol

Valley Community Group

The Clerk informed the members that the Valley Community Group had provided a copy of their risk assessment (already shared with members) for the Easter event at Parc Mwd and had confirmed acceptance of the terms and conditions of the Council's lettings policy, as requested. A copy of their insurance certificate is still pending. It was also confirmed that the use of fryers will no longer be required for the event. Members discussed the event and the documents received.

Resolved: To grant permission to the Valley Community Group to use the Pavilion and Parc Mwd for their Easter event in April, subject to receiving a copy of their valid insurance certificate.
Prop/Sec: MSW/EJ
Agreed unanimously

6.

Gorchymyn Traffig Arfaethedig, Llecynnau Parcio i'r Anabl Ynys Môn

Ystyriodd yr aelodau'r Gorchymyn Traffig Arfaethedig ar gyfer Lle Parcio i Bobl Anabl yng 12 Bron Heulog, Y Fali, a dderbyniwyd gan Adran Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Cyngor Sir Ynys Môn. Trafodwyd y cynnig, ac ni chodwyd unrhyw wrthwynebiad. Bydd y Clerc yn hysbysu'r Cyngor Sir nad oes gwrthwynebiad.

Proposed Traffic Order, Disabled Parking Spaces Anglesey

Members considered the Proposed Traffic Order for a Disabled Parking Space at 12 Bron Heulog, Valley (LL65 3AH), received from the Highways, Waste and Property Department of Anglesey County Council. The proposal was discussed, and no objections were raised. The Clerk will notify the County Council of no objection.

298/2526

I ystyried a derbyn y trosolwg ariannol misol, gan gynnwys balansau'r cyfrifon, sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn ac unrhyw incwm a dderbyniwyd, ac i benderfynu derbyn y balansau hyd at 28/02/2026

To consider and accept the monthly financial overview, including account balances, reserves position and income received, and to resolve to accept the balances up to 28/02/2026

i. Balansau Cyfrifon

Cyfrif Elusennol – Busnes	£21,991.38	Business – Charitable Account	£21,991.38
Cronfa Wrth Gefn – Busnes	£22,261.65	Business – Reserves	£22,261.65
Cyfrif Elusennol – Ynys Wen	£9,278.59	Ynys Wen – Charitable Account	£9,278.59
Cronfa Wrth Gefn – Ynys Wen	£3,649.17	Ynys Wen – Reserves	£3,649.17
Cyfanswm	£57,180.79	Total	£57,180.79

i. Account Balances**ii. Reserfau ac Arian wedi'i Glustnodi**

Reserfau Cyffredinol	£20,910.82	General Reserves	£20,910.82
----------------------	------------	------------------	------------

ii. Reserves and Earmarked Funds

Ynys Wen – Gwaith Draenio	£5,000.00	Ynys Wen Drainage Works	£5,000.00
Grant Ardal Chwarae Parc Mwd	£152.74	Parc Mwd Play Area Grant	£152.74
Grant Atal Troseddu - Arwyddion	£100.00	Crime Prevention Grant - Signs	£100.00
Arwyddion Prosiect Baw Ci	£625.00	Dog Waste Project Signs	£625.00
Man Cadw Beic	£600.00	Bike Rack	£600.00
Rampiau Parc Mwd	£2,500.00	Parc Mwd Speed Ramps	£2,500.00
Ffioedd Cyfreithiol	£900.00	Legal Fees	£900.00
Cyfanswm	£30,788.56	Total	£30,788.56

iii. Incwm a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf

CSYM – Grant Claddedigaethau Plant	£236.63
Derbynebaw'r Fynwent	£252.00
Llog Banc cyfrif yn darfod 8453	£77.70
Llog Banc cyfrif yn darfod 6996	£12.68
Cyfanswm	£579.01

iii. Income received since last meeting

IOACC – Child Burial Grant	£236.63
Cemetery Receipts	£252.00
Bank Interest account ending 8453	£77.70
Bank Interest account ending 6996	£12.68
Total	£579.01

Penderfynwyd: derbyn y balansau fel rhai cywir yn unol a Rheoliadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali
Cyn/Eil: KT/MSW
Cytunwyd yn unfrydol

Resolved: to accept balances as correct in accordance with Valley Community Council Financial Regulations.
Prop/Sec: KT/MSW
Agreed unanimously

299/2526

Nodi'r taliadau rheolaidd a wnaed o dan y Rhestr o Daliadau Rheolaidd a gymeradwywyd (197/2526)

To note the regular payments made under the approved Schedule of Regular Payments (197/2526)

DD	British Gas – Cloc	£15.02	DD	British Gas – Clock	£15.02
DD	Scottish Power – Trydan Parc Mwd	£56.82	DD	Scottish Power – Parc Mwd Electricity	£56.82
DD	Cloudy Group – Cefnogaeth TG	£66.07	DD	Cloudy Group – IT Support	£66.07
DD	CSYM – Treth Maes Parcio	£202.00	DD	IOACC – Car Park Tax	£202.00
BT	Humphreys Waste – Ardal Chwarae	£48.00	BT	Humphreys Waste – Play Area	£48.00
BT	Humphreys Waste – Ynys Wen	£36.00	BT	Humphreys Waste – Ynys Wen	£36.00
BT	Humphreys Waste – Parc Mwd	£24.00	BT	Humphreys Waste – Parc Mwd	£24.00
BT	A Jones – Cyflog	£838.47	BT	A Jones – Salary	£838.47
BT	A Jones – Costau Gweinyddol	£21.00	BT	A Jones – Admin Costs	£21.00
BT	H Hywel – Cyfieithu Chwef a Mawrth 2026	£160.00	BT	H Hywel – Translation Feb and March 2026	£160.00

Nododd yr aelodau'r taliadau rheolaidd a wnaeth o dan y Rhestr Gymeradwy o Daliadau Rheolaidd.

The members received and noted the regular payments made under the approved Schedule of Regular Payments.

300/2526

I ystyried ac awdurdodi'r taliadau newydd a restrir, gan gynnwys taliadau lwfansau aelodau,

To consider and authorise new payments, including members' allowance payments and

**ac i gadarnhau'r taliadau debyd a wnaethpwyd ers
y cyfarfod diwethaf**

**to ratify debit card payments made since the
last meeting**

DC	Asda – Stamps	£6.96	DC	Asda – Postage Stamps	£6.96
DC	Williams Medical – Bocs Cymorth Cyntaf a Llyfr Damweiniau	£63.23	DC	Williams Medical – First Aid Box and Accident Book	£63.23
DC	Glasdon UK Ltd – Bagiau Baw Cwn	£173.00	DC	Glasdon Uk Ltd – Dog Waste Bags	£173.00
BT	Cyng. C Carter - Taliadau Lwfans Aelodau 2025/26	£104.00	BT	Cllr. C Carter - Members Allowances 2025/26	£104.00
BT	Cyng. N Tuck - Taliadau Lwfans Aelodau 2025/26 - taliad ychwanegol yn unol â Penderfyniad Rhif 50 o Bolisi Lwfansau Aelodau	£80.00	BT	Cllr. N Tuck - Members Allowances 2025/26 – additional payment as per Determination No. 50 of Members Allowance Policy	£80.00
BT	Cyng. A Williams – Lwfans Aelodau 2025/26	£17.33	BT	Cllr. A Williams – Members Allowance 2026/26	£17.33
BT	Dragon Signs NW Ltd – arwyddion CCTV	£73.80	BT	Dragon Signs NW Ltd – Crime Prevention Signs	£73.80
BT	Dragon Signs NW Ltd – arwydd mynedfa mynwent Ynys Wen	£320.40	BT	Dragon Signs NW Ltd – Ynys Wen cemetery entrance sign	£320.40
BT	Dragon Signs NW Ltd – arwyddion codi baw ci	£750.60	BT	Dragon Signs NW Ltd – Dog Waste Signs	£750.60
BT	Dragon Signs NW Ltd – arwyddion tân i'r Pafiliwn, Parc Mwd	£74.41	BT	Dragon Signs NW Ltd – Fire Safety Signs for the Pavillion, Parc Mwd	£74.41
BT	Dragon Signs NW Ltd – arwydd man ymgynnull	£144.00	BT	Dragon Signs NW Ltd – Fire muster point sign	£144.00
BT	Dragon Signs NW Ltd – arwyddion dim ysmegu	£54.17	BT	Dragon Signs NW Ltd – No smoking signs	£54.17
BT	Dragon Signs NW Ltd – arwyddion bocs cymorth cyntaf	£51.13	BT	Dragon Signs NW Ltd – First Aid box signs	£51.13

Penderfynwyd: i dderbyn y taliadau fel rhai cywir
ac fe'u hawdurdodwyd yn unol a Rheoliadau
Ariannol Cyngor Cymuned y Fali.
Cyn/Eil: KT/WR
Cytunwyd yn unfrydol

Resolved: to accept payments as correct and
were authorised in accordance with the Valley
Community Council Financial Regulations.
Prop/Sec: KT/WR
Agreed unanimously

301/2526

**Cymeradwyo trosglwyddiad mewnol rhwng
cyfrifon y cyngor:**

Gofynnodd y Clerc am awdurdod i drosglwyddo'r
swm Grant Claddedigaeth Plant (£236.63) o'r Cyfrif
Busnes – Elusennol i'r Cyfrif Elusennol Ynys Wen,
gan fod y grant hwn i'w ddyrannu i gyllid Ynys Wen.

**To approve an internal transfer between
council accounts:**

The Clerk requested authorisation to transfer
the £236.63 Child Burial Grant from the
Business – Charitable Account to the Ynys Wen
– Charitable Account, as the grant should be
allocated to the Ynys Wen finances.

Penderfynwyd: cymeradwyo trosglwyddo £236.63 o'r Cyfrif Busnes – Elusennol i'r Cyfrif Elusennol Ynys Wen.

Cyn/Eil: WR / GB

Cytunwyd yn unfrydol

Resolved: to approve the transfer of £236.63 from the Business – Charitable Account to the Ynys Wen – Charitable Account.

Prop/Sec: WR/GB

Agreed unanimously

302/2526

Ymgynghori ar geisiadau a penderfyniadau Cynllunio

To consult on Planning Applications and Decisions

1. Ymgynghoriad Ceisiadau Cynllunio:
Dim

Planning Applications for Consultation:
None

2. Penderfyniadau Cynllunio:
Dim

Planning Decisions:
None

303/2526

Gohebiaeth (wedi cylchredeg):

Correspondence (Circulated):

1. Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru – Cyhoeddiad o'r Adroddiad Blynyddol ar Gydabyddiaeth
2. Un Llais Cymru- Digwyddiadau Pwysig sydd i ddod
3. Fforwm cynghorau tref a chymuned - cofnodion 4 Chwefror 2026.
4. CSYM - Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad Chwefror 2026
5. CSYM - Pwyllgor Safonau 22 Ionawr 2026 (adborth)
6. Ambiwlans Awyr – Llythyr o ddiolch am y rhodd
7. Apel Cronfa Cyfle i Bawb yr Urdd – Llythyr o ddiolch am y rhodd diweddar.

1. Democracy and Boundary Commission Cymru – Publication of the Annual Remuneration Report 2026–27
2. One Voice Wales - Important Upcoming Events
3. Town and community council's forum minutes of 4 February 2026.
4. IOACC - The Executive's forward work programme - February 2026 update
5. IOACC - Standards Committee on 22 January 2026 (feedback)
6. Air Ambulance – Letter of thanks for donation
7. Urdd Fund For All – Letter of thanks for recent donation.

304/2526

Ymgynghoriad (wedi cylchredeg):

Consultation (Circulated):

1. CSYM - Ymgynghoriad Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn - Polisi Cynllunio - Gweledigaeth, Amcanion & Opsiynau a Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig - **sylwadau erbyn 25/03/2026 - Aelodau i ymateb yn unigol**
2. CSYM - CSYM - Ymgynghoriad Cyhoeddus Cychwynnol Adolygu Map Rhwydwaith Teithio Llesol Mon 2026 – **dyddiad cau 26/03/2026 - Aelodau i ymateb yn unigol**

1. IOACC – new Local Development Plan (LDP) for Anglesey Consultation – Vision, Objectives & Options and Integrated Sustainability – **comments by 25/03/2026 – members to respond individually**
2. IOACC - Anglesey's Active Travel Network Map Review Initial Public Consultation 2026 – **closing date 26/03/2026 – members to respond individually**

305/2526

Derbyn adborth gan:

To receive feedback from:

1. Fforwm Gyswllt Cynghorau Tref a Chymuned – **Dim cyfarfod wedi bod, cyfarfod nesaf 3 Mehefin 2026**

1. Town and Community Council Liaison Forum – **No recent meeting held, next meeting 3 June 2026**

2. ULLC: Pwyllgor Ardal Ynys Mon – **Dim cyfarfod wedi bod, cyfarfod nesaf 22 Ebrill 2026**
3. Bwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol Rhoddod y Cyng. G. Browne MBE ddiweddariad o'r ysgol. Cafodd yr aelodau wybod bod y plant wedi cymryd rhan mewn arolwg am Y Fali, a grëwyd ar y cyd â'r Cyngor, ac y caiff y data ei ddefnyddio wrth adolygu Cynllun y Cyngor. Nodwyd o ganfyddiadau cychwynnol yr arolwg fod rhai plant yn teimlo'n anniogel ym Mharc Mwd, ac roedd rhiant wedi rhannu pryderon tebyg yn ddiweddar gyda'r Cyng. K. Taylor. Nodwyd y pryderon hyn gan yr aelodau. Hysbyswyd yr aelodau bod y plant wedi tynnu llun gyda'r arwyddion newydd ar gyfer gwastraff cŵn, sy'n cynnwys dyluniadau a grëwyd gan y disgyblion. Bydd y Clerc yn rhannu'r llun gyda'r aelodau.
4. Cynghrair Bro'r Llynnoedd – **cyfarfod nesaf 24 Mawrth 2026**
2. OWW: Ynys Mon Area Meeting – **No recent meeting held, next meeting 22 April 2026**
3. School Governing Board Cllr G. Browne MBE gave an update from the school. Members were informed that the children had taken part in a survey about Valley, created jointly with the Council, and that the data will be used when reviewing the Council's Plan. Initial findings from the survey noted that some children felt unsafe in Parc Mwd, and a parent had recently shared similar concerns with Cllr K. Taylor. These concerns were noted by the members. Members were informed that the children had taken a photograph with the new dog-waste signs, which feature designs created by the pupils. The Clerk will share the photograph with members.
4. Bro'r Llynnoedd Alliance - **next meeting 24 March 2026**

306/2526

Hyfforddiant

Wedi cylchredeg gan y clerck

Training

Circulated by clerck.

307/2526

Eitemau i raglen y cyfarfod nesaf

Clwb y Cob – Mainc (MSW)

Items for the next meeting agenda

Clwb y Cob – Bench (MSW)

Am 19:14, mae'r Cadeirydd wedi atal brif fusnes y cyfarfod dros dro er mwyn caniatáu i'r aelodau gynnal trafodaeth fer ynghylch yr eitem nesaf gyda National Grid, i drafod Cronfa Budd Cymunedol, cyn i gynrychiolwyr National Grid gyrraedd. Ni chymerwyd unrhyw benderfyniadau ffurfiol yn ystod y drafodaeth hon. Ailddechreuodd prif fusnes y cyfarfod am 19:25.

At 19:14, the Chair temporarily suspended the main business of the meeting in order to allow members to hold a brief discussion regarding the next item with National Grid, to discuss a Community Benefit Fund, prior to the arrival of the fund representatives. No formal decisions were taken during this discussion. The main business of the meeting resumed at 19:25

Gadawodd H. Hughes, Cyfieithydd, y cyfarfod am 19:20.

H Hughes, Translator leaves meeting at 19:20

308/2526

Gweithdy gan National Grid mewn perthynas a cyllid buddion cymunedol sy'n gysylltiedig ag adeiladu Is-orsaf newydd Penrhos

National Grid Workshop regarding community benefit fund associated with the construction of new Penrhos Substation

Cyflwynodd cynrychiolwyr o National Grid a Cavendish Consulting weithdy ar y Gronfa Buddion Cymunedol gwerth £530,000 sy'n gysylltiedig â'r Is-orsaf newydd ym Mhenrhos. Derbyniodd yr aelodau gynodeb byr o'r prosiect.

Cafodd y gweithdy ei ganolbwyntio ar ddyrannu'r gronfa a blaenoriaethau posibl y gymuned, gan gynnwys: datblygu cyfleuster cymunedol modern a chynaliadwy; gwella cyfleusterau presennol; creu gardd goffa; darpariaeth fynwent tymor hir; cynhwysiant digidol ac offer; mentrau bioamrywiaeth; a gwybodaeth treftadaeth. Nodwyd bod pobl ifanc yn flaenoriaeth, gyda'r angen am ofodau addas ar gyfer gweithgareddau a grwpiau, gan gynnwys grwpiau Cymraeg. Ystyriwyd mentrau tymor hir, gan bwysleisio'r angen i'r gronfa gefnogi sawl grŵp.

Cynigiwyd dulliau ymgysylltu gan gynnwys postio i gartrefi, bod yn bresennol mewn mannau cyhoeddus, ymgysylltu ym Mharc Mwd ac yr ysgol leol, cyfryngau cymdeithasol, a sesiynau galw heibio.

Nododd National Grid y camau nesaf, gan gynnwys lansio'r ymgynghoriad, dosbarthu llythyr newyddion ac arolwg, a chynnal digwyddiadau galw heibio.

Cynigiodd y Cyngor ddefnydd o'r pafiliwn yn Parc Mwd ar gyfer sesiwn galw heibio yn y gymuned.

309/2526

Dyddiad y Cyfarfodydd Nesaf

Pwyllgor Ynys Wen: 19:00 dydd Mawrth **31 Mawrth 2026** yn Parc Mwd

Pwyllgor Cyllid a Phersonel: 19:00 dydd Mercher **8 Ebrill 2026** dros Teams

Cyfarfod llawn: 19:00 dydd Mercher **15 Ebrill 2026** yn Ysgol Gymuned Y Fali a Teams

Representatives from National Grid and Cavendish Consulting delivered a workshop on the £530,000 Community Benefit Fund associated with the new Penrhos Substation. Members received a brief overview of the project.

The workshop covered fund allocation and potential community priorities, including: developing a modern, sustainable community facility; improving existing facilities; creating a memorial garden; long-term cemetery provision; digital inclusion and equipment; biodiversity initiatives; and heritage information. Young people were identified as a priority, with a need for suitable spaces for activities and groups, including Welsh-language groups. Long-term initiatives were considered, with emphasis on ensuring the fund benefits multiple groups.

Proposed engagement methods included household mail, attendance at public locations, engagement at Parc Mwd and at the local school, social media, and drop-in sessions.

National Grid outlined next steps, including launching the consultation, issuing a newsletter and survey, and holding community drop-in events.

The Council offered the Parc Mwd pavilion as a venue for a drop-in session.

Date of Next Meetings

Ynys Wen Committee: 19:00 Tuesday **31 March 2026** at Parc Mwd

Finance and Personnel Committee: 19:00 Wednesday **8 April 2026** via Teams

Full Council: 19:00 Wednesday **15 April 2026** at Valley Community School and on Teams.

Daeth y cyfarfod i ben am 20:35

The meeting ended at 20:35